**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

1 Gorffennaf 2022

Annwyl Peredur,

Yn dilyn fy llythyr diweddar yn rhoi gwybod i chi am Gyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid, a gadeiriais ar 15 Mehefin yng Nghaerdydd, hoffwn adrodd yn gryno ar y trafodaethau. Cyhoeddwyd datganiad hefyd yn dilyn y cyfarfod: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid – 15 Mehefin 2022 - GOV.UK (www.gov.uk).

Yn bresennol roedd Simon Clarke AS, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, Conor Murphy ACD, Gweinidog Cyllid (Gogledd Iwerddon), Kate Forbes ASA, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Economi (yr Alban), a minnau.

Canolbwyntiodd y cyfarfod ar yr Argyfwng Costau Byw lle pwysleisiais i Brif Ysgrifennydd y Trysorlys (CST) effaith chwyddiant ar gyllidebau craidd, gan dynnu sylw at y ffaith bod cyllideb Llywodraeth Cymru bellach yn werth dros £600m yn llai na phan gafodd ei chyhoeddi yr hydref diwethaf. Cytunodd y CST y dylai swyddogion weithio gyda'i gilydd i drafod y ffordd orau i Lywodraeth y DU roi cymorth i fusnesau drwy'r argyfwng presennol. Codais hefyd fater cyflogau'r sector cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r pwysau chwyddiant a'r angen dilynol am arian ychwanegol gan Lywodraeth y DU. Cytunodd y Gweinidogion i roi gwybod i'w gilydd am ddatblygiadau ar gytundebau cyflogau'r sector cyhoeddus.

Fel rhan o drafodaeth ar gyllidebu a chyfathrebu, sicrhawyd cytundeb rhwng Gweinidogion i swyddogion Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig lunio cynnig ar y cyd ar welliannau i brosesau cyllid diwedd blwyddyn. Disgwylir i hyn gael ei rannu â Gweinidogion dros yr haf i gytuno arno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid.

O dan y Diweddariad gan Lywodraethau Datganoledig, rhoddais drosolwg o'r gwaith ar y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru. Cytunodd y CST i ddarparu unrhyw ddata a gwybodaeth yr oedd eu hangen ar y Comisiwn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O dan Unrhyw Fater Arall, cytunodd y Gweinidogion i gynnwys eitem sylweddol ar agenda nesaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ynghylch cyllid i ddisodli cyllid yr UE. Manteisiais hefyd ar y cyfle i godi pryderon ynghylch adfer wedi COVID, yn benodol mewn perthynas â phwysau ar y  GIG, gyda chyllid ychwanegol yn angenrheidiol gan Lywodraeth y DU. Roedd y CST yn glir na fyddai unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer y Llywodraethau Datganoledig ac y byddai angen i'r pwysau hyn, ynghyd â'r rhai sy'n deillio o werth is ein cyllideb o ganlyniad i chwyddiant, gael eu hamsugno o fewn y cyllidebau presennol a'u rheoli drwy ailflaenoriaethu a dadgwmpasu.

Bydd Llywodraeth yr Alban yn cynnal ac yn Cadeirio'r cyfarfod nesaf ym mis Medi.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government